

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 6 Tachwedd 2009

Preseanol: Dr A R Beaumont (Cadeirydd), Mr R Behi, Dr G Clarke, Mr H Ellis, Mr D N Fordham, Mrs L Fowlie, Mr M Goodwin, Mr T Hecht, Dr J Latchford, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Mr G Parry, Mr J Patton, Miss E Riches, Dr D M Roberts, Mr E W. Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Mr G W. Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Mr I Connor, Mr J East, Miss S Barnes, Mr J Jackson, Mr M West, Mr A Williams, Dr D Wright, Mr L Jones, Prof P Spencer, Mr J Charles, Mr P Hogan.

332. COFNODION

Cymerwyd bod Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd 21 Mai 2009, wedi eu darllen ac fe'u cadarnhawyd a'u llofnodi.

333. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

334. YR IS-BWYLLGOR IECHYD, DIOGELWCH A LLES MYFYRWYR

Derbyniwyd adroddiad oddi wrth yr Is-Bwyllgor. Nodwyd yr eitemau canlynol yn arbennig:

- i. Cofnod 033 – Ymgyrch Dim Ysmygu. Mae diffyg digonol o hyd o arwyddion 'Dim Ysmygu' a thynnir sylw at hynny'n aml pan gaiff myfyrwyr sy'n ysmygu'n agos at adeiladau eu herio. Gosodwyd arwyddion dros dro ond mae angen rhai parhaol.
- ii. Cofnod 034b – Cyflyrau Meddygol / Amhariadau Myfyrwyr. Mae angen canllawiau ynglŷn â phwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros roi cefnogaeth a chyngor i adrannau wrth gynnal asesiadau risg yn ymwneud â myfyrwyr gyda phroblemau iechyd meddwl, a hysbysu'r rhai sydd angen gwybod am ddarganfyddiadau allweddol asesiadau o'r fath.
- iii. Cofnod 035 – Datblygiadau Newydd ym maes Iechyd a Diogelwch Myfyrwyr. Mynegodd Undeb y Myfyrwyr eu gwerthfawrogiad o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i gefnogi'r Gwasanaeth Cynghori Myfyrwyr.

335. ADRODDIAD Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Derbyniwyd adroddiad gan y Grŵp Tasg. Nodwyd yr eitemau canlynol yn arbennig:

- i. Cynhaliwyd tri chyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor I a D.
- ii. Mae Polisi a Rheolaethau newydd ar Asbestos wedi cael eu paratoi (a godir dan agendum eitem 7).

iii. Mae pecyn archwilio newydd i gael ei gyflwyno. Cynhelir archwiliadau o Adrannau a Cholegau o'r hydref hwn ymlaen a bydd archwiliadau ar themâu penodol yn parhau.

ADRODDIAD HANNER BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH

Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae pecyn archwilio newydd wedi ei seilio ar OHSAS 18001 / 2 wedi cael ei ddatblygu gan alluogi'r Brifysgol i feincnodi perfformiad presennol iechyd a diogelwch a phennu targedau ar gyfer y dyfodol. Diolchwyd i Lisa Fowlie am ei gwaith yn paratoi'r pecyn.
- ii. Mae Arolwg Radon cychwynnol wedi ei gwblhau ac mae monitro pellach ar y gweill.
- iii. Mae'r archwiliad Bioberyglon, a ohiriwyd dros gyfnod y gwyliau, wedi aildechrau erbyn hyn.
- iv. Datblygu Dogfennau: Cynhyrchwyd Llawlyfr Ymbelydredd newydd, gan ddod â thair dogfen ar wahân at ei gilydd mewn un canllaw hawdd ei ddefnyddio. Yn ogystal, cynhyrchwyd Taflenni Gwybodaeth ymarferol yn ymdrin ag amrywiaeth o beryglon labordy a chemegol. Hefyd yn cael ei ddatblygu mae pecyn hyfforddi a fydd yn rhoi arweiniad gam wrth gam ar gynnal Asesiadau COSHH. Diolchwyd i Dr J Latchford a S Barnes am eu gwaith.
- v. Hybu Cynnal Iechyd: Rhoddwyd crynodeb o'r gweithgareddau hyrwyddo canlynol a gafodd groeso a chefnogaeth dda ar draws y Brifysgol, gan gasglu dros £2,500 tuag at Tŷ Gobaith dros y 18 mis diwethaf:
 - Her Colli Pwysau
 - Ymwybyddiaeth o Alcohol
 - The Flipper Club (grŵp nofio).
 - Teithiau Cerdded Haf / Amser Cinio.

Rhoddwyd Prifysgol Bangor ar y rhestr fer am wobwr genedlaethol mewn hybu iechyd, sy'n dangos bod systemau iechyd y Brifysgol yn gyffelyb i rai sefydliadau cenedlaethol eraill, megis British Telecom ac E.ON. Mae cynlluniau iechyd ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- Project Bwyd ar gyfer Bywyd, sydd â'r nod o wella diet staff a myfyrwyr.
 - Grŵp Beicio i annog iechyd a ffitrwydd ymysg staff a myfyrwyr.
 - Ymdrechion i sicrhau cyllid o Gwpan Ryder 2010 i annog hybu iechyd drwy chwarae golff.
- vi. Ystadegau Interim Iechyd a Diogelwch:
 - Salwch Tymor Hir: Gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer staff ar gyfnodau salwch tymor hir o'i gymharu â'r llynedd.
 - RIDDOR Cynyddodd nifer y damweiniau y rhoddwyd gwybod amdanynt dan drefn RIDDOR o'i gymharu â 2008. Fodd bynnag, efallai bod hyn i'w briodoli i drefn adrodd well.
 - Camau Gorfodi: Derbyniwyd ymholiad ffurfiol gan yr HSE yn ymwneud â chwyn ynghylch dod i gysylltiad â chemegau yn yr Ysgol Cemeg. Darparwyd adroddiad ar y digwyddiad ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach ganddynt.
 - vii. Mae'r Gwasanaeth Tân wedi cynnal nifer o archwiliadau; rhoddir adroddiad cryno

arnynt i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ym Mai.

- viii. Cynhadledd NWWHSG: Denodd y Gynhadledd dros 130 o gynadleddwyr ar draws Gogledd Cymru, gyda'r prif siaradwyr yn cynnwys Yr Arglwydd McKenzie o Luton (y Gweinidog dros Iechyd a Diogelwch DWP) a Ms Jane Lassey, Pennaeth Gweithrediadau'r HSE– Cymru. Ar y diwrnod, ymrwymodd yr Is-Ganghellor y Brifysgol i'r HSE ac i gynllun Llywodraeth Prydain *'Pledge to be part of the Solution'*. Diolchwyd i L Fowlie a S Barnes am eu hymdrechion rhagorol i wneud yr achlysur yn un mor llwyddiannus.

337. **ADRODDIAD HUNAN-WERTHUSO IECHYD A DIOGELWCH I GOLEGAU AC ADRANNAU**

Nodwyd mai diben yr ymarfer hwn oedd gweld beth oedd sefyllfa bresennol y Brifysgol o ran rheolaeth iechyd a diogelwch mewn Colegau/Adrannau, ac nad ei fwriad oedd rhoi tabl 'cynghrair' o ganlyniadau ond, yn hytrach, adnabod cryfderau a gweld lle gellid rhoi cefnogaeth i roi sylw i wendidau. Nodwyd bod y system sgorio braidd yn amrwd a'i bod yn rhoi sgôr negyddol yn hytrach na chadarnhaol i eitemau nad ydynt yn berthnasol. Rhoddir sylw i'r materion hyn yn y dyfodol.

Y cryfderau amlycaf oedd gweithredu a chofnodi Sesiynau Cynefino ar Iechyd a Diogelwch, dulliau gweithredu rhag tân ac ymarferion tân.

Y gwendidau amlycaf oedd diffyg asesiadau risg, cofnodion hyfforddiant, lefelau isel o fonitro iechyd a diogelwch a rheolwyr heb gael hyfforddiant ar ddelio ar absenoldebau salwch.

Canolbwyntir yn awr ar roi cefnogaeth gydag asesiadau risg a rhoddir cyngor i Golegau ac Adrannau ynghylch y dogfennau y mae angen iddynt eu cadw. Gall y System Agresso hefyd roi ffordd ymlaen gyda golwg ar gynnal cofnodion hyfforddiant.

Cafwyd trafodaeth faith ynghylch cyfrifoldebau cyfreithiol y Brifysgol gyda phrofi offer symudol. Nodwyd mai'r angen cyfreithiol yw i gynnal a chadw offer trydanol mewn cyflwr diogel, ac nid i gynnal profion PAT fel y cyfryw; fodd bynnag, heb gynnal profion PAT efallai na all y Brifysgol ddangos bod offer wedi cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid sefydlu grŵp bychan i ymchwilio i sefyllfa gyfreithiol ehangach cynnal Profion PAT. Bydd y grŵp hwn yn adrodd yn ôl i gyfarfod Mai 2010.

338. **RHEOLI ASBESTOS**

Diwygiwyd y Polisi Asbestos blaenorol OHSGU20; nawr mae'r Polisi'n Bolisi Safon Asbestos ar wahân, a ategir gan Gynllun Rheoli Asbestos sy'n rhestru cyfrifoldebau a rhoi fframwaith ar gyfer cynnal archwiliadau.

Cymeradwywyd y Polisi newydd.

Cytunwyd y dylai sylwadau'n ymwneud â'r Cynllun Rheoli Asbestos gael eu hanfon at y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau.

339. **POLISI IECHYD A DIOGELWCH**

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft y Polisi Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Cadarnhawyd y bydd cyfnod ymgynghori ar draws y Brifysgol yn dechrau nawr.

340. DIWEDDARAF AR FFLIW MOCH

Nodwyd mai ychydig oedd wedi newid ers y cyfarfod blaenorol a bod yr effaith wedi bod yn llai difrifol na'r disgwyl. Anfonwyd taflenni gwybodaeth at holl staff a myfyrwyr.

341. UNRHYW FATER ARALL

- i. Mynegwyd pryder nad oedd *pager* larwm tân ar gyfer aelod staff byddar iawn yn Gwyddorau Eigion wedi cael ei osod er bod cyllid ar ei gyfer wedi ei roi ym Mai. Cytunodd y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau i ymchwilio i'r mater.
- ii. Dyddiadau cyfarfodydd nesaf arferol y Pwyllgor yw:

Dydd Gwener, 19 Chwefror, 10.00 a.m.

Dydd Gwener 21 Mai, 10.00 a.m.